

# Egluro cyfraddau uchel o blant bach sy'n destun achosion gofal mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru

## Awduron

Stefanie Doebler

Bachar Alrouh

Karen Broadhurst

Stuart Bedston

Linda Cusworth

Ashley Akbari

David Ford

Lucy J. Griffiths

**Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi canlyniadau dadansoddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol sy'n amcanu at nodi'n fanwl y parthau amddifadedd arbennig sy'n gysylltiedig â chyfraddau plant bach yn mynd i ofal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r gwaith yn ategu ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*, sy'n adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn ynglŷn â'r plant ieuengaf oll yn y system cyfiawnder teuluol.**

#### **Awduron**

Stefanie Doebler, Prifysgol Caerhirfryn  
Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn  
Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn, Cyd-gyfarwyddwr y  
Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol  
Stuart Bedston, Prifysgol Abertawe  
Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn  
Ashley Akbari, Prifysgol Abertawe  
David Ford, Prifysgol Abertawe, Cyd-gyfarwyddwr y Bartneriaeth  
Data Cyfiawnder Teuluol  
Lucy J. Griffiths, Prifysgol Abertawe

#### **Cyfeiriad a argymhellir**

Doebler et al. (2021). *Explaining high rates of infants in care proceedings in deprived areas of Wales*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Mae'r adroddiad llawn ar gael o:

<https://www.cfjlanaster.org.uk/publications>

#### **Ymwadiad**

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, rhai Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2021  
100 St John St, London EC1M 4EH T: 020 7631 0566  
Elusen gofrestredig 206601  
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Data a methodoleg.....	3
Prif ganfyddiadau.....	4
Casgliad ac argymhellion.....	6
Cyfeiriadau.....	7



**Family Justice  
Data Partnership**



**SAIL DATABANK**

**Population Data Science  
at Swansea University**



**Medical School  
Ysgol Feddygaeth**



**Centre for  
Child & Family  
Justice Research**

**Lancaster  
University**



# Cyflwyniad

Mae cyfres o astudiaethau wedi cadarnhau erbyn hyn bod cysylltiad rhwng amddifadedd a chyfraddau uwch o blant a babanod mewn gofal.<sup>1</sup> Nid yw'r cysylltiad hwn yn neilltuol i'r DU, ond ceir tystiolaeth ohono mewn nifer o awdurdodaethau rhyngwladol. Mae corff cynyddol o lenyddiaeth yn herio ffocws cul ar ffactorau risg rhieni yn unig (er enghraifft, cam-drin domestig neu gamddefnyddio sylweddau), ac mae'n galw am ehangu'r lens polisi ac ymarfer ar anghenion teuluoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant a'r llysoedd teulu (Skinner et al., 2021). Fel yr ysgrifenna Skinner, nid manylion cyd-destunol bach yw amgylchiadau economaidd-gymdeithasol; yn hytrach maent yn llywio'r gallu i fagu plant yn llwyr. Felly, er mwyn lleihau nifer y babanod a phlant sy'n mynd i ofal y tu allan i'r cartref, mae'n bwysig deall a chyfrif yn well am effaith amddifadedd.

Yn y crynodeb byr hwn o adroddiad llawn a gyhoeddwyd gan Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd Prifysgol Caerhirfryn, rydym yn crynhoi canlyniadau dadansoddiad diweddar a oedd yn ceisio nodi'n fanwl y parthau amddifadedd penodol sy'n gysylltiedig â chyfraddau plant bach yn mynd i mewn i ofal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru (Doebler et al. 2021). Gwneir cymariaethau gyda phlant hŷn hefyd.

Mae'r adroddiad yn adeiladu ar y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*, sy'n llunio sylfaen dystiolaeth gadarn ynglŷn â'r plant ieuengaf oll yn y system cyfiawnder teuluol (Broadhurst et al. 2018; Alrouh et al. 2019; Griffiths et al. 2020).

Mewn cyferbyniad â'r mwyafrif o'r llenyddiaeth sydd wedi'i chyhoeddi hyd yma, sy'n defnyddio mesurau amddifadedd cyfansawdd, nod ein hastudiaeth oedd sefydlu p'un a oedd gan unrhyw rai o'r wyth parth amddifadedd a gynhwysir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc)-incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol)-gysylltiad cryfach â phlant bach yn mynd i mewn i ofal, a chymharu â phatrymau ar gyfer plant hŷn. Canfuom fod ffactorau ecolegol fel amddifadedd incwm a chyflogaeth mewn ardaloedd bach yn amlwg yn chwarae rhan bwysig i egluro cyfraddau plant bach yn mynd i mewn i ofal.

Mae'r defnydd o fesurau amddifadedd cyfansawdd wedi'i hen sefydlu. Fodd bynnag, mae'r mesurau hynny'n oelu effeithiau gwahaniaethol parthau amddifadedd penodol. Pan fydd cyllid yn brin, mae cryn werth i helpu llunwyr polisi i dargedu'r *agweddau penodol ar galedi* a allai gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn arbennig o wir yn sgil y pandemig COVID-19, y canfuwyd eisoes ei fod wedi gwaethygu anghydraddoldebau ac wedi creu cyfraddau diweithdra nodedig o uwch, yn enwedig yn y DU a'r Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia (Blundell et al. 2020; Johnston et al. 2020).

---

<sup>1</sup> Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio'r term 'plant bach' i gyfeirio at blant o dan un flwydd oed.

Y gwaith hwn yw'r astudiaeth genedlaethol gyntaf erioed o blant bach mewn achosion gofal yng Nghymru i ddefnyddio data gweinyddol gwasanaeth llawn o'r llysoedd teulu yng Nghymru. Bu modd gwneud gwaith cysylltu newydd ar gofnodion anadnabyddadwy y tynnwyd enwau ohonynt ar gyfer sampl o 7,381 o blant a oedd yn destun achosion gofal a.31 rhwng 2014 a 2019 trwy waith y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teulu—cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe—wedi'i gefnogi gan amgylchedd diogel y Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae ymchwil o'r gyfres *Mewn Gofal o'u Geni* wedi amlygu cyfraddau cynyddol o blant bach yn mynd i mewn i ofal yng Nghymru, gan gynnwys babanod newydd-anedig-cyfradd a ddyblodd rhwng 2015/16 a 2018/19 (Alrouh et al. 2019). Mae hyn yn gwneud y chwilio am fewnwelediadau cadarn a all helpu llywio'r agenda polisi yn arbennig o daer.

Mae'r ffocws ar Gymru yn ceisio unioni'r anghydbwysedd yn llenyddiaeth y DU, gan fod y mwyafrif o'r ymchwil gyhoeddedig ar blant mewn gofal wedi tueddu canolbwyntio ar Loegr, er gwaetha'r ffaith bod Cymru a Lloegr yn rhannu'r un fframweithiau cyfiawnder teulu cyfreithiol.

# Data a methodoleg

Defnyddiodd yr astudiaeth wreiddiol ddata gweinyddol o Wasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (Cafcass Cymru) ar yr holl blant ( $n=7,381$ ) a oedd yn destun achosion gofal yng Nghymru o dan a.31 Deddf Plant 1989, rhwng y blynyddoedd calendr 2014 i 2018. Cysylltwyd y data hwn â data amddifadedd lefel ardal ar y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a ddarparwyd gan asiantaeth Ystadegau Cymru, ac â data gofal cymdeithasol yn cynnwys gwariant net awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd (StatsCymru 2014; 2019). Cafwyd mynediad i'r data trwy Fanc Data SAIL, sef llwyfan rhannu data diogel sy'n diogelu preifatrwydd (Ford et al. 2009; Jones et al. 2019; Lyons et al. 2009).

Cafodd ein defnydd ni o ddata ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth SAIL.

Defnyddiom ddadansoddiad atchweliad Poisson i ganfod perthnasoedd ystadegol rhwng y parthau amddifadedd gwahanol a'r cyfraddau mynychder ar gyfer babanod a phlant bach sy'n mynd yn destun achosion gofal rhwng 2014 a 2019, gan reoli ar gyfer gwariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol. Mae disgrifiad manwl o'r dull dadansoddi ar gael yn yr adroddiad llawn (Doebler et al. 2021).


# Prif ganfyddiadau

Dangosodd ein dadansoddiad gyfraddau mynychder uchel mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig ymhlith plant bach (gweler Ffigur 1).

Yn Ne Cymru, mae cyfraddau mynychder yn arbennig o uchel yn: Nhorfaen, Merthyr Tudful, ardaloedd o amgylch Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Caerdydd, a Chasnewydd.

Yng Ngogledd Cymru, canfuom gyfraddau uwch na'r cyfartaledd ar Ynys Môn, yng Ngwynedd, Conwy a Sir Ddinbych.

**Ffigur 1: Cyfraddau mynychder plant bach mewn achosion gofal a.31 fesul 1,000**




Datgelodd ein dadansoddiadau, o'r wyth o barthau amddifadedd a roddwyd ar waith yn MALIC, dim ond pedwar-amddifadedd cyflogaeth, incwm, addysg ac iechyd-oedd yn ystadegol arwyddocaol yn nhermau risg uwch o fabanod a phlant mewn



awdurdodau lleol yn mynd yn destun achosion gofal. Yn ddi-ddorol, dyma'r pedwar parth sy'n dibynnu fwyaf ar fesurau cyfanredol lefel unigolyn a lefel aelwyd (incwm aelwydydd, nifer o bobl ar fudd-daliadau cyflogaeth, nifer sydd wedi rhoi'r gorau i'r ysgol, a chyfran y bobl â lefelau cymwysterau is). Roedd y ffactorau amgylcheddol ffisegol fel mynediad i wasanaethau (pellenigrwydd ardal mewn cilometrau), tai a'r amgylchedd ffisegol (hinsawdd a graddfa llygredd) yn anarwyddocaol yn ystadegol i gyd.

**Ffigur 2: Cyfraddau mynychder plant bach mewn achosion gofal a.31 fesul 1,000**



Fel y gellid disgwyl, nid yw perthnasoedd rhwng amddifadedd ac ymddangosiadau plant bach mewn achosion gofal yn hollol syml. Dangosodd nifer fach o ardaloedd dystiolaeth o sgorau amddifadedd a oedd ddim ond fymryn uwchlaw'r cyfartaledd, ond roedd ganddynt gyfraddau arbennig o uchel o blant mewn achosion gofal. Gan ystyried allanolion, y parthau amddifadedd cyflogaeth ac incwm wnaeth ddangos y patrwm mwyaf cyson.

Fe wnaeth ein modelu a chymariaethau ystadegol rhwng babanod a phlant ddangos hefyd bod effeithiau pob un o'r pedwar parth amddifadedd yn dal gryfaf ar gyfer plant bach.

# Casgliad ac argymhellion

Dangosodd ein modelau fod ecoleg ehangach cyflogaeth, incwm, addysg a pholisïau'n ymwneud ag iechyd yn bwysig iawn er diogelwch a lles plant bach. Fe wnaeth gwariant y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd, er bod cydberthynas wan rhwng hynny â chyfraddau mynychder babanod a phlant sy'n destun achosion gofal, beidio â bod yn arwyddocaol wrth reoli ar gyfer amddifadedd. Nid yw hyn yn golygu nad yw buddsoddiad a gwariant yn bwysig; yn hytrach, mae'r dadansoddiad yn cyfeirio at effeithiau cryf y parthau amddifadedd penodol hyn. At hynny, plant bach sy'n fwyaf bregus i effaith y parthau hyn o ran ymddangos mewn achosion gofal.

Mae ein canfyddiadau mewn perthynas â phwysigrwydd amddifadedd cyflogaeth, incwm ac addysg yn bwysig, yn enwedig ar gyfer y cymunedau ôl-ddiwydiannol yng Nghymru yn sgil y pandemig COVID-19. Mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ein hastudiaeth (gan gynnwys Torfaen, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot) yn hen gymunedau a threfi glofaol, lle mae degawdau o ddatddiwydiannu wedi arwain at golli swyddi, blynyddoedd o amddifadedd cyflogaeth parhaus, ac amddifadedd incwm. Mae sylw diweddar yn y wasg wedi amlygu effaith greithio datddiwydiannu, ac mae hyn bellach yn mynd law yn llaw â risg uwch morbidrwydd a marwolaeth yn sgil COVID-19 yn y cymunedau hyn (Pasha-Robinson 2018; Smith ac Aguilar Garcia 2020).

Mae ein canfyddiadau'n dynodi, ymhellach na chymorth targedig i deuluoedd, y dylai llunwyr polisi ystyried mesurau ecolegol ehangach sy'n cryfhau marchnadoedd llafur lleol ac yn gwella amddifadedd incwm yn ogystal â mesurau i hybu iechyd a deilliannau addysgol ar gyfer plant a theuluoedd bregus. Er bod ymchwil ddiweddar iawn ar dadau wedi amlygu diweithdra a chyflogaeth ansicr fel nodweddion bregus allweddol ar gyfer tadau mewn achosion gofal (Philip et al. 2021), yn rhy aml, mae materion o'r fath yn cael eu diystyru mewn ymchwil a darpariaeth cymorth i deuluoedd, sy'n canolbwyntio ar y cysyniad sydd bellach wedi'i ddiweddarau, sef y 'triawd gwenwynig'.

Mae angen i lwyddiant agenda'r llywodraeth 'codi i'r un gwastad' ystyried y graddau y mae polisïau cymdeithasol yn effeithio'n gadarnhaol ar y plant a'r teuluoedd mwyaf bregus mewn ardaloedd o Gymru sydd eisoes wedi'u difetha gan dlodi sydd wedi gwreiddio'n ddwfn.

# Cyfeiriadau

Alrouh, B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L., Johnson, R.D., Akbari, A., et al. (2019). *Mewn gofal o'u geni: Babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Blundell, R., Dias, M. C., Joyce, R., a Xu, X. (2020). Covid-19 and inequalities. *Fiscal Studies*, 41(2), 291–319. <https://doi.org/10.1111/1475-5890.12232>

Broadhurst, K., Alrouh, B., Mason, C., Ward, H., Holmes, L., Ryan, M., et al. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Doebler, S., Alrouh, B., Broadhurst, K., Bedston, S., Cusworth, L., Akbari, A., et al. (2021). *Born into care: unpacking the impact of area-level deprivation in Wales*. Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd, Prifysgol Caerhirfryn.

Ford, D.V., Jones, K.H., Verplancke J.P., Lyons, R.A., John, G., Brown, G., et al. (2009). The SAIL Databank: building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research* 2009;9:157

Griffiths, L.J., Johnson, R.D., Broadhurst, K., Cusworth, L., Bedston, S., Jones, K., et al. (2020). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Johnston, R. M., Mohammed, A., a Linden, C. van der. (2020). Evidence of exacerbated gender inequality in child care obligations in Canada and Australia during the COVID-19 pandemic. *Politics & Gender*, 16(4), 1131–1141.

Jones, K. H., Ford, D. V., Thompson, S., a Lyons, R. (2019). A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform. *International Journal of Population Data Science*, 4(2). <https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i2.1134>

Lyons, R. A., Jones, K. H., John, G., Brooks, C. J., Verplancke, J.-P., Ford, D. V., et al. (2009). The SAIL databank: Linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, 9(1), 3. <https://doi.org/10.1186/1472-6947-9-3>

Pasha-Robinson, L. (2018). Life expectancy in parts of the UK plummets by more than a year. *The Independent*. Ar gael o: <https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/life-expectancy-uk-plummets-ons-data-hartlepool-torridge-amber-valley-barnsley-a8164171.html>

Philip et al. (2021). *'Up against it': Understanding fathers' repeat appearance in local authority care proceedings*. Prifysgol East Anglia (UEA)/ Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd, Prifysgol Caerhirfryn: Norwich/Caerhirfryn.

Skinner, G.C. M., Bywaters, P., Bilson, A., Duschinsky, R., Clements, K., a Hutchinson, D. (2021). The 'toxic trio' (domestic violence, substance misuse and mental ill-health): How good is the evidence base?, *Children and Youth Services Review*, 120, 105678. <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2020.105678>

Smith, H.-A. ac Aguilar Garcia, C. (2020). Coronavirus: The towns most economically at risk from coronavirus pandemic. *Sky News*. Ar gael o: <https://news.sky.com/story/coronavirus-coastal-and-ex-industrial-towns-most-economically-at-risk-11977233>

Stats Cymru. (2014). *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (Malc 2014)- Adroddiad Technegol* (tud. 1-65).

Stats Cymru. (2019). *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2019. Adroddiad Technegol*. (tud. 53). Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/welsh-index-multiple-deprivation-2019-technical-report.pdf>

# Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

## Y Bartneriaeth Ddata Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Ddata Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, ac mae Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid cyfannol. Fe'i hariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

## Banc Data SAIL

Mae'r data gan Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael ym Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, y DU, sy'n rhan o seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol Cymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio'r data hwn gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan ganiateir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: [www.saildatabank.com/application-process](http://www.saildatabank.com/application-process)